

SEFYDLU YMGYRCH CASGLU DILLAD YN EICH SEFYDLIAD

**GOFYNION O RAN CYLLIDEB,
AMSER AC ARBENIGEDD
CANLLAW CYLLIDEB: £0 - £2,500
FE ALL COSTIAU CYNNWYS
CYNLLUNIO A CHYNHYRCHU
DEFNYDDIAU CYFATHREBU,
CYMORTH PR, TÂL HWYLUSYDD
GWEITHDY, TRAFNIDIAETH, A
FFOTOGRAFFIAETH.**

**AMSER AC ARBENIGEDD:
ANGEN ODDEUTU 52 - 132 AWR
O AMSER STAFF**

- Rheolwr prosiect: 20 – 60 awr
- Staff cyfathrebu: 20 – 36 awr
- Cyfleusterau/diogelwch: 12 – 36 awr

AMCANION

Amcanion y gweithgaredd hwn yw ymgysylltu staff ag ymchwil casglu dillad, i gynorthwyo elusen leol a chodi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol dillad.

CYNLLUNIO

Bydd cymhlethdod y cynllunio yn dibynnu ar p'un ai a fyddwch chi'n rhedeg yr ymgyrch ar yr un pryd ar draws nifer o leoliadau, neu mewn un lleoliad.

**-6
MIS**

- **Lluniwch gynnig prosiect drafft** - dylai amlinellu cyd-destun, rhesymwaith, amcanion, cyllideb, gofynion staffio a buddion yr ymgyrch.
- **Ystyriwch pryd fyddai'r amser gorau i gynnal yr ymgyrch.** Gallech ei gysylltu â digwyddiadau/ymgyrchoedd ymwybyddiaeth lleol neu genedlaethol, fel:
 - Wythnos ffasiwn ranbarthol
 - Wythnos Chwyldro Ffasiwn
 - Wythnos Elusennau Bach
 - Wythnos Ail Law yn Gyntaf
 - Wythnos Ailgylchu
 - Wythnos gynaliadwyedd eich sefydliad eich hun, neu debyg
- **Sefydlwch weithgor ar gyfer yr ymgyrch a threfnwch gyfarfod er mwyn i adrannau allweddol ymrwymo, a thrafod y cynnig, derbyn adborth, cynllunio gweithgareddau allweddol/cerrig milltir, a phenderfynu ar rolau a chyfrifoldebau.** Dylai'r cyfarfod hwn gynnwys cydweithwyr perthnasol o'r adrannau Iechyd a Diogelwch, Diogelwch, Codi a Chario,

Cyfleusterau/Ystadau, a Chyfathrebu Mewnol. Os oes gan eich sefydliad Reolwr/Hyrwyddwr Cynaliadwyedd neu rôl debyg, a Swyddog Ymgysylltu Gweithwyr neu rôl debyg, gallan nhw fod yn rhan o'r gweithgor hefyd.

- **Penderfynwch am ba hyd y byddwch yn cynnal yr ymgyrch / am sawl wythnos fydd y staff yn gallu rhoi.**
- **Efallai yr hoffech ystyried cynnal digwyddiadau ategol i gyd-fynd â'r ymgyrch, fel gweithdai gwnïo/uwchgylchu, neu diwtorialau trwsio dillad.** Gall yr ymgyrch Caru Eich Dillad gynorthwyo gyda hyn trwy eu rhwydwaith o 'Uwch Grefftwyr' yn y DU.
- **Efallai yr hoffech gynnig cymhelliad, fel raffi ar gyfer pawb fydd yn rhoi dillad neu alluogi staff i wneud adduned i wlyio tiwtorial fideo a thrwsio eu dillad.**

ASTUDIAETH
ACHOS
CYNLLUN
GWEITHREDU

SEFYDLU YMGYRCH CASGLU DILLAD YN EICH SEFYDLIAD

-3
MIS

- **Gosodwch amcanion ar gyfer yr ymgyrch er mwyn mesur ei lwyddiant. Er enghraifft:**
 - Casglu 500kgs o ddillad ar gyfer elusen leol dros bedair wythnos
 - 300 aelod o staff i roi bag o ddillad yn ystod mis

Mehefin

- 50 aelod o staff i fynychu gweithdy uwchgylchu yn ystod mis Mehefin
- 100 aelod o staff i wneud adduned i drwsio eu dillad

-1
MIS

- **Llunio drafft a chwblhau cynllun cyfathrebu**
- **Amlygu lle neu ystafell addas yn yr adeilad lle gall staff adael eu rhoddion.** Dylai fod yn rhywle y gall staff gael mynediad ato'n hawdd.
- **Dylai'r cyfleusterau yn yr ystafell gynnwys biniau neu drolïau i storio bagiau o ddillad.** Bydd angen i'r tîm Diogelwch/Ystadau/Cyfleusterau fonitro'r ystafell i sicrhau y caiff y bagiau eu storio'n ddiogel.

- **Dylech ymrestru elusen leol i gasglu'r rhoddion.** Efallai y byddwch chi eisiau sicrhau/gwirio bod ganddyn nhw yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a hyfforddiant codi a chario. Efallai y bydd angen ystyried mynediad i gerbydau, cyfleusterau manau llwytho, a hysbysu'r adran diogelwch pan fydd casgliadau'n cael eu gwneud. Efallai y bydd angen i aelod o'r tîm Diogelwch/Ystadau/Cyfleusterau fod ar gael i oruchwylio'r casgliadau.

LANSIO'R
YMGYRCH

- **Llunio drafft a chwblhau copi o'r ymgyrch a deunyddiau cyfathrebu.** Caniatewch amser i'w cyfieithu i'r Gymraeg neu ail iaith, os oes angen i'r negeseuon fod yn ddwyieithog.
- **Penderfynwch sut i lansio'r ymgyrch a pwy ddylai ei lansio.** Er enghraifft, yng nghyfarfod briffio misol y Cyfarwyddwr, trwy neges fideo, neu fel y brif stori newyddion ar y fewnwrwyd.

- **Gallech ofyn i'r elusen sy'n casglu'r dillad i ddarparu gwybodaeth** neu hyd yn oed ymweld â'ch sefydliad i roi cyflwyniad i'r staff ynghylch sut mae'r rhoddion dillad yn eu helpu i godi arian a ble fydd y dillad yn mynd.

CYFATHREBU

- **Lluniwch gynllun cyfathrebu mewnol i amlinellu pa neges/negeseuon allweddol fydd yn cael eu cyfleu, pryd a sut.**
- **Defnyddiwch gymysgedd o ddulliau cyfathrebu i gyrraedd staff ac atgyfnerthu'r negeseuon.** Gallai'r rhain gynnwys e-gylchlythyrau neu fwletinau, newyddion a diweddariadau ar y fewnwrwyd, briffiau staff, hysbysfyrddau, posteri yn ffreutur/manau cymunedol y staff, hysbysfyrddau electronig, negeseuon fideo/sgrin plasma.
- **Penderfynwch pa roddion y caiff eu derbyn a chyfleu hyn yn glir i'r staff.** Er enghraifft, ydych chi eisiau derbyn esgidiau, bagiau, ategolion, dillad gwely neu decstilau eraill?
Enghraifft: Rhoddwch ddillad oedolion a phlant sydd mewn cyflwr gwisgadwy. *Caiff/ni chaiff* esgidiau, bagiau, ategolion, dillad gwely a thecstilau mewn cyflwr da eu derbyn.

Os oes gennych chi ddillad neu decstilau y tu hwnt i'w trwsio, gallwch eu hailgylchu i wneud rhywbeth arall. Gwiriwch beth sydd ar gael yn eich ardal leol ar: www.loveyourclothes.org.uk/recycle-your-clothes


- **Ar ôl lansio'r ymgyrch, anfonwch negeseuon atgoffa at staff yn rheolaidd i'w hannog i roi trefn ar eu wardrobau a dod â bag o ddillad i'w rhoi.** Gall yr ymgyrch Caru Eich Dillad ddarparu amrywiaeth o adnoddau cyfathrebu fel posteri, ffeithluniau, fideos, canllawiau a thafleenni.
- **Ar ddiwedd yr ymgyrch, rhowch wybod i'r staff faint o fapiau (neu gyfanswm y pwysau) o ddillad a roddwyd, a'r buddion y mae hyn yn ei roi i'r elusen ac i'r amgylchedd.** Diolchwch iddyn nhw am gymryd rhan ac am eu cymorth.

SEFYDLU YMGYRCH CASGLU DILLAD YN EICH SEFYDLIAD

GWERTHUSO A MESUR LLWYDDIANT

- Beth oedd cyfanswm pwysau'r dillad a roddwyd?
- Faint o staff a wnaeth roi ddillad, mynychu gweithdy neu wneud adduned i drwsio eu dillad
- Sawl gwaith yr edrychwyd ar y straeon newyddion ar y fewnwyd?
- Sawl gwaith yr edrychwyd ar y tiwtoriadalu fideo?
- Sawl gwaith yr edrychodd pobl ar dudalen eich ymgyrch?
- Sawl neges e-bost a anfonwyd i ategu gweithgarwch?
- Faint o bobl a fynychodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig?

Efallai yr hoffech gasglu adborth ansoddol oddi wrth staff i gael eu meddyliau a'u sylwadau am yr ymgyrch. Gallech chi wneud hyn trwy arolwg ar-lein neu mewn digwyddiad briffio staff.



RHESTR WIRIO OFFER/DEUNYDDIAU

- Ystafell addas i storio rhoddion
- Binau rhoddion neu debyg i ddal y bagiau o ddillad a roddir
- Troli i gludo'r dillad o'r ystafell i'r ardal lwytho i'w casglu
- Clorian bwyso i fesur pwysau'r rhoddion (efallai y bydd yr elusen benodol yn gallu ei darparu)
- Deunyddiau hyrwyddol, stondinau dros dro, a chyfathrebiadau electronig i ymgysylltu staff



YSTYRIAETHAU PWYSIG

- Gwiriwch bolisi diogelwch eich sefydliad os byddwch yn penderfynu trefnu hwyluswyr allanol i gynnal gweithdai trwsio neu wnio. Dylen nhw ddarparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac asesiad risg.
- Gall bagiau mawr o ddillad fod yn drwm i'w symud. Gwnewch yn siŵr bod cyfleusterau digonol ar gael (fel troli) i symud y bagiau.
- Gwnewch yn siŵr bod cerbyd yr elusen yn addas ar gyfer cyfleusterau man llwytho eich sefydliad. Er enghraifft, gall rhai mannau llwytho mawr fod yn addas ar gyfer faniau â lifft cefn yn unig.
- Tynnwch luniau! Cofnodwch gynnydd y pentwr o fagiau o ddillad trwy dynnu lluniau'n rheolaidd. Gallwch ddefnyddio'r rhain mewn cyfathrebiadau ar ddiwedd yr ymgyrch.



SEFYDLU YMGYRCH CASGLU DILLAD YN EICH SEFYDLIAD

BUDDION

- Annog staff i ymddwyn yn fwy cynaliadwy mewn perthynas â dillad: archwilio eu wardrobau a rhoi dillad a fydd o fudd i elusen leol ac yn lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi
- Annog staff i ddysgu sgiliau trwsio ymarferol a defnyddiol, i'w helpu i gadw eu dillad mewn defnydd yn hwy
- Cyfleustra i staff – darparu man gadael yn y gwaith
- Cyfrannu at gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol neu raglen ymgysylltu gweithwyr
- Darparu ffynhonnell o roddion dillad i elusennau lleol.

Os hoffech gynnal ymgyrch fel hyn, cysylltwch â ni:
loveyourclothes@wrap.org.uk

GWELER ASTUDIAETH ACHOS

www.carueichdillad.org.uk

